Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cyhoeddi'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Tai newydd** |
| **Dyddiad:** | **16 Mehefin 2009** |
| **Gan:** | **Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai** |

Hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Cynulliad at y datganiad i'r wasg atodedig, sydd ar fin ei gyhoeddi.

**DATGANIAD I'R WASG**

**Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2009**
**W09535-ESH**

## Gofyn am bwerau tai newydd i ddiogelu tai cymdeithasol a hawliau tenantiaid

Heddiw, (dydd Mawrth), cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bwriad i ofyn am bwerau newydd, ehangach eu cwmpas i foderneiddio tai cymdeithasol.

Mae sicrhau mwy o dai fforddiadwy o ansawdd gwell yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon ac rydym wedi cynnal adolygiad trylwyr o bolisïau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Caiff y syniadau newydd hyn eu hamlinellu yn y Strategaeth Dai Genedlaethol ddrafft, Strategaeth Cefnogi Pobl a chynlluniau ar gyfer Pobl Ddigartref yn ogystal ag yn ein gwaith gyda phartneriaid i roi argymhellion Adolygiad Essex ar waith. Caiff pob un o'r rhain eu cwblhau a'u cyhoeddi yn yr hydref.

Mae'r strategaethau hyn yn mynd i'r afael â'r heriau y mae'r sector tai yn eu hwynebu yn ystod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gan gynnwys llai o arian cyhoeddus, ond hefyd â heriau fel y newid yn yr hinsawdd y byddwn yn eu hwynebu yn y tymor hir.

Rydym bellach yn gofyn am bwerau a fydd yn rhoi'r offer deddfwriaethol a rheoleiddiol i Lywodraeth y Cynulliad i'n galluogi i wireddu'n gweledigaeth, ac i ymateb mewn ffordd arloesol i heriau polisi yn y dyfodol.

Bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol newydd ynglŷn â thai yn ymgorffori nodau'r Gorchymyn ar Dai Fforddiadwy o gadw stoc tai cymdeithasol, sy'n cael ei dynnu'n ôl o'r Senedd.

Y nod fydd moderneiddio'r system, gwireddu dyheadau'r tenantiaid o ran perchentyaeth ecwiti a diwygio'r cynllun Hawl i Brynu.

Meddai'r Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies:

"Mae 'na ddatblygiadau mawr wedi bod ym maes tai ers 2007, ac mae'r dirywiad economaidd wedi effeithio ar allu pobl i brynu tai a chael morgais.

"Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ofyn am fwy o bwerau er mwyn i ni allu cyflawni ein huchelgeisiau ehangach yn hyn o beth. Mae'n gwneud synnwyr felly i ymgorffori'r ymrwymiadau a wnaethom yn y Gorchymyn blaenorol yn un Gorchymyn eang ei gwmpas.

"Ers 2007, rydym wedi gwneud llawer o waith ym maes tai fforddiadwy.

"Rhaid i ni edrych ar sut y gallwn ni gadw a diogelu tai cymdeithasol i denantiaid nawr ac yn y dyfodol ar gyfer pobl Cymru.
"Mae angen i ni gael pwerau i sicrhau digon o dai cymdeithasol fydd yn gweithredu ar argymhellion Adroddiad Essex a'n strategaethau ni sy'n delio â thai cenedlaethol, digartrefedd a thai â chymorth."

Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael â'r datblygiadau ym maes tai i leihau effaith y dirwasgiad, yn ogystal â cheisio datrys y problemau tymor hwy o gael gafael ar dai fforddiadwy a'r newid yn yr hinsawdd.

Unig ddiben y Gorchymyn blaenorol oedd edrych ar dir y mae landlordiaid yn ei waredu ond bydd y Gorchymyn newydd hwn yn edrych ar lawer mwy: tai â chymorth, argymhellion adroddiad Essex a phwerau dros y gyfraith ar denantiaeth.

Mae tai ar frig rhestr blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ac mae Gweinidogion a swyddogion yn edrych ymlaen at weithio gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru sydd wedi dweud y bydd yn cydweithio â'r Llywodraeth i gyflawni hyn.